OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1833 (Cy.149) (C.79)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud - - 6 Gorffennaf 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 47(5), 52(3), (4) a (6) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) a chyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol(**2**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

3. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg Uwch 2004 a'r Atodlenni iddi.

Darpariaethau sy'n dod i rym

4. Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar 7 Gorffennaf 2005 —

(a) adran 10(2);

(b) adran 44 (1), (2), (5) a (6);

(c) adran 49 i'r graddau mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 6 isod;

(ch) adran 50 i'r graddau mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 7 isod;

(d) yn Atodlen 6, paragraff 7, dileu adran 26(5) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998; ac

(e) yn Atodlen 7, diddymu adran 26(5) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

5. Daw'r darpariaethau canlynol i rym ar 1 Medi 2006—

(a) adran 44(3); a

(b) adran 44(4).

(**1**) 2004 p.8.
(**2**) Fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Addysg Uwch 2004, adran 52(4).

Darpariaeth drosiannol ac arbed

6. Er gwaethaf dwyn i rym adran 44(1) a (2) yn rhinwedd erthygl 4(b) uchod, hyd at 1 Medi 2006 mae swyddogathau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) 2005(**3**) yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**)

D. Elis-Thomas
6 Gorffennaf 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) O.S. 2005/52.
(**4**) 1998 p.38.